# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

7fed o Fai 2021

Annwyl riant/ofalwr

**I rieni/gofalwyr disgyblion Blwyddyn 11**

Rydym yn cwblhau cynlluniau erbyn bydd Blwyddyn 11 yn ein gadael, ac hefyd i roi cyfle i ddysgwyr sy'n bwriadu dilyn cyrsiau Safon Uwch dderbyn gwaith 'a gollwyd' ar ôl diwedd y broses GBG.

**Mae'r asesiad GBG olaf ar gyfer pob disgybl ar Ddydd Llun 24ain o Fai (Wythnos B). Hwn fydd y diwrnod olaf y bydd disgwyl i fwyafrif y myfyrwyr ddod i'r ysgol.** Mae'r myfyrwyr wedi cael strwythur amlinellol ar gyfer y diwrnod.

Bydd angen i nifer fach o ddisgyblion Blwyddyn 11 ddod i'r ysgol yn ystod gweddill yr wythnos (25ain - 28ain Mai) i gwblhau asesiadau a gollwyd.

**Rhaglen TGAU – 'Gwaith a gollwyd':**
Mae cyllid ar gael i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i addysg Ôl-16. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau Safon Uwch yn cael cyfle i gwblhau'r fanyleb TGAU lawn yn y pynciau maen nhw wedi'u dewis. Y bwriad yw sicrhau bod gan fyfyrwyr y sylfaen orau bosibl ar gyfer astudio Safon Uwch.

Rydym yn bwriadu darparu pecyn o gyfleoedd dysgu o bell (dros 'Google Classroom' er enghraifft) ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno derbyn y ddarpariaeth ychwanegol hon. Ar hyn o bryd, rydym yn gwirio pa ddisgyblion sy'n dangos diddordeb, a byddwn yn rhoi diweddariad i chi ar ôl i ni gwblhau ein cynlluniau. Bydd y rhaglen yn cychwyn ar ôl hanner tymor.

Mae Blwyddyn 11 wedi parhau i weithio'n eithriadol o dda trwy gydol y cyfnod asesu hwn. Fel staff, rydym yn falch gyda'r ymdrech y maent yn ei rhoi mewn i'r gwaith, a gyda'r ffordd aeddfed y maent yn rhoi i mewn i'r broses hon.

Diolch hefyd am eich cefnogaeth amhrisiadwy.

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com